Egluro targedau – llwybrau gyrfa

Trosolwg o'r Wers

1. Cysylltu'r dysgu	Ysgrifennwch ar y bwrdd "Dyma lle mae'ch gyrfa'n dechrau!" Cysylltwch y gweithgaredd ag unrhyw ddysgu sy'n ymwneud â gwaith neu yrfaoedd y mae'r myfyrwyr wedi ei brofi. Mae angen i'r myfyrwyr ddeall, os ydynt am gyflawni eu potensial mewn bywyd, y dylen nhw ddechrau meddwl am osod targedau ar gyfer bywyd a'r dyfodol. Dim ond pan fydd ganddynt dargedau clir y byddan nhw'n gallu dechrau llunio cynllun i'w helpu i'w cyrraedd. Mae'r broses gynllunio honno'n dechrau yma, yng nghyfnod allweddol 3.
2.Y darlun mawr	Mae'r tri gweithgaredd olaf yn y modiwl hwn yn canolbwyntio ar sefydlu targedau a chanfod ffyrdd o'u cyrraedd. Mae angen rhyw 20 munud i gwblhau pob gweithgaredd. Cyfunwch ddau neu dri i greu gwers lawn neu defnyddiwch y gweithgareddau unigol yn ystod cyfnodau dosbarth neu fel ffordd ddifyr o ddechrau gwers. O gyfuno pob un o'r 6 gweithgaredd gyda'i gilydd, gallech eu defnyddio ar gyfer digwyddiad gyrfaoedd nad yw'n rhan o'r amserlen.
3. Canlyniadau'r dysgu	O'r rhaglen astudio anstatudol ar gyfer cyfnod allweddol 3: 1.1 Gyrfa a) Deall bod "gyrfa" gan bawb b) Datblygu ymdeimlad o hunaniaeth bersonol yng nghyd-destun dilyniant gyrfa c) Deall y priodweddau, agweddau a sgiliau sydd eu hangen i fod yn gyflogadwy. 2.1 Datblygu'r Hunan Dylai'r disgyblion fedru: a) Datblygu a chynnal eu hunan-barch a rhagweld dyfodol cadarnhaol iddynt eu hunain yn y gwaith c) Asesu eu hanghenion eu hunain, eu diddordebau, eu gwerthoedd, eu sgiliau, eu galluoedd a'u hagweddau yng nghyswllt opsiynau ym maes dysgu, gwaith a menter 2.2 Archwilio Dylai'r disgyblion fedru: a) Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i archwilio gwahanol ddewisiadau yng nghyd-destun gyrfa a threfniadau ariannol b) Adnabod bias a gwallau mewn gwybodaeth am lwybrau dysgu, gwaith a menter
4. Cyflwyniad 5 munud	Yn y sesiwn flaenorol rhoddwyd tasg gwaith cartref i'r myfyrwyr. Roedd rhaid iddyn nhw wneud peth ymchwil ar-lein i'r targed gyrfa roedden nhw wedi'i ddewis o'u "hysgrif bywyd". Gofynnwch i nifer o'r myfyrwyr pa darged gyrfa y buon nhw'n ymchwilio iddo a pha wefan y buon nhw'n ei defnyddio. Pa mor ddefnyddiol oedd y gwefannau iddyn nhw? Oedden nhw'n meddwl y gallai fod bias o gwbl yn yr wybodaeth? Pa wefannau eraill fydden nhw'n eu defnyddio ar gyfer eu hymchwil gyrfaoedd?
5. Gweithgaredd 5 munud	Dosbarthwch bapur a gofyn i bob myfyriwr ysgrifennu'r targed gyrfa a ddewiswyd ganddyn nhw ar y brig. Nawr gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu eu canfyddiadau allweddol o'u hymchwil ar-lein.

6. Arddangosiad 5 munud	Os oes modd, neilltuwch le ar wal y stafell ar gyfer canfyddiadau'r myfyrwyr. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddylunio poster o amgylch eu targed gyrfa a'u datganiadau. Os oes adnoddau ar gael, gadewch gylchgronau a deunyddiau tynnu llun iddyn nhw eu defnyddio ar gyfer eu dyluniad. Fel arall, gallech chi osod tasg gwaith cartref, sef creu poster gan ddefnyddio adnoddau TGCh. Yr amcan yw sicrhau bod gan y myfyrwyr rywbeth parhaol gweladwy i'w hatgoffa am eu targedau a'u syniadau cynllunio.
7. Adolygu a rhagolwg 5 munud	Gofynnwch i'r grŵp ddychmygu eu bod yn cynghori myfyrwyr ynglŷn â defnyddio gwefannau ar gyfer ymchwil gyrfaoedd. Beth yw'r tri phwynt allweddol y bydden nhw'n eu hawgrymu? Ysgrifennwch y rhain ar y bwrdd neu eu hychwanegu at arddangosfa'r myfyriwr.

- Gwahaniaethwch yn ôl arddull ddysgu – tasg weledol yw hon yn bennaf. Fodd bynnag, petai'n briodol gallech ddefnyddio recordydd fideo i gofnodi canfyddiadau'r myfyrwyr yn lle creu arddangosfa. Gallai'r myfyrwyr chwarae rôl ymgynghorwyr gyrfaoedd, a chynnig cyngor i fyfyrwyr ar sail eu canfyddiadau ymchwil. Gwnewch y myfyrwyr cinesthetig yn gyfrifol am actio yn y chwarae rôl neu eu cofnodi.
- Gwahaniaethwch yn ôl gallu - os oedd y dasg ymchwil ar-lein yn rhy uchelgeisiol i'r myfyrwyr, ewch yn ôl i'r mapiau meddwl a'r cyngor cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i'r wers ddiwethaf. Gan dynnu sylw at bwyntiau allweddol megis cymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith, gofynnwch i'r myfyrwyr chwarae rôl ymgynghorwyr gyrfaoedd a myfyrwyr. Cofnodwch y canlyniadau os bydd angen. Lluniwch yr arddangosfa gan ddefnyddio'r mapiau meddwl neu'r pwyntiau allweddol a ysgrifennwyd neu a ddarluniwyd.
- Awgrym ar gyfer rheoli'r dosbarth - wrth greu'r arddangosfa, eglurwch wrth y myfyrwyr mai'r pwynt yw eu hatgoffa am eu targedau ysgrifenedig a sut mae modd iddyn nhw fynd ati i'w cyrraedd. Mae angen iddyn nhw ddefnyddio'u harddangosfa i'w hatgoffa am eu targedau ar gyfer y dyfodol.